# Asesiad generig o ddyluniadau atomfeydd ymgeisiol

# datganiad o dderbynioldeb dyluniad ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU

cyflwynwyd gan

## Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal Asesiad Dyluniad Generig o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE, yn ystod y cyfnod rhwng Rhagfyr 2013 a Rhagfyr 2017, gan ddefnyddio'r broses a amlinellir yn y Ddogfen Broses a Gwybodaeth ar gyfer Asesiadau Generig o Ddyluniadau Atomfeydd Ymgeisiol[1+2.]

Mae canfyddiadau ein hasesiad wedi'u crynhoi yn y ddogfen:

> Dogfen Benderfynu ar gyfer Asesiad Dyluniad Generig o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE [3]

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon bod Hitachi-GE wedi arddangos y derbynioldeb ar gyfer trwyddedu amgylcheddol Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU ar y safle generig, fel y'i diffinnir yn Atodlen 1.

Darperir y datganiad hwn fel cyngor i Hitachi-GE, o dan adran 37 Deddf yr Amgylchedd 1995 a Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (fel y'i diwygiwyd) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012). Nid yw'n gwarantu y bydd unrhyw geisiadau sy'n benodol i safle o ran trwyddedau amgylcheddol ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU yn llwyddiannus.

Bydd y datganiad yn parhau i fod yn ddilys am y deng mlynedd nesaf o'r dyddiad cyhoeddi. Mae hyn yn amodol ar y ffaith na ddaw unrhyw wybodaeth newydd arwyddocaol i law yn ystod y cyfnod hwnnw sydd efallai'n taflu amheuaeth ar ein hasesiad blaenorol o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU.

| | |
|---|---|
| Stephen Hardy | 14 Rhagfyr 2017 |

Awdurdodwyd ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd

| | |
|---|---|
| Tim Jones | 14 Rhagfyr 2017 |

Awdurdodwyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeirnodau


1. Dogfen Broses a Gwybodaeth ar gyfer Asesiadau Generig o Ddyluniadau Atomfeydd Ymgeisiol, Fersiwn 2, Asiantaeth yr Amgylchedd, Mawrth 2013. http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20151009003754/https://www.gov.uk/government/publications/assessment-of-candidate-nuclear-power-plant-designs

2. Dogfen Broses a Gwybodaeth ar gyfer Asesiadau Generig o Ddyluniadau Atomfeydd Ymgeisiol, Fersiwn 3, Asiantaeth yr Amgylchedd, Hydref 2016. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/296440/LIT_7998_3e266c.pdf

3. Dogfen Benderfynu ar gyfer Asesiad Dyluniad Generig o Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE, Asiantaeth yr Amgylchedd, Rhagfyr 2017 LIT10714.

# Atodlen 1 – Cwmpas yr Asesiad Dyluniad Generig

Mae’r datganiad o dderbynioldeb dyluniad hwn yn cyfeirio at Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU Hitachi-GE fel y’i disgrifir yn y dogfennausy’n disgrifio cyfeirbwynt y dyluniad:

| **Rhif cyfeirnod y ddogfen** | **Teitl** | **Rhif y fersiwn** |
|---|---|---|
| GA91-9901-0017-00001 | Diffiniad o Gyfeirbwynt y Dyluniad | B |
| GA91-1104-0002-00001<br>(XE-GD-0178) | Cyfeirbwynt Dyluniad ar gyfer Adweithydd Dŵr Berw Uwch y DU, Medi 2017 | 8 |
| GA91-0011-0003-00001<br>(XE-GD-0158) | Rhestr Gyflwyno y Prif Ddogfen, Tachwedd 2017 | 15 |